# Amodau Cyffredinol i Ganolfannau CBAC

Fersiwn 2, Hydref 2023

## Pwy Ydym Ni

Bwrdd arholi yw CBAC sy'n darparu cymwysterau ac asesiadau arholiadau ar gyfer ysgolion a cholegau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau annibynnol. Gyda dros 70 mlynedd o brofiad o ddarparu cymwysterau, CBAC yw'r prif ddarparwr yng Nghymru ac un o brif ddarparwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Sefydlwyd CBAC yn 1948 fel consortiwm o awdurdodau addysg lleol yng Nghymru. Bellach rydym yn elusen annibynnol gofrestredig, dan reolaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Thîm Arwain Gweithredol.

Mae WJEC CBAC Cyf. yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac yn elusen gofrestredig (rhif 1073332). Mae is-gwmni, sef WJEC CBAC Services Limited, yn darparu gwasanaethau argraffu a chyhoeddi arbenigol. Mae Eduqas yn nod masnach cofrestredig o WJEC CBAC Ltd.

## Beth rydyn ni'n ei wneud

Mae CBAC yn darparu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a galwedigaethol a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer myfyrwyr rhwng 14 a 19 mlwydd oed.

Mae cymwysterau CBAC a ddarperir yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Drwy frand Eduqas, mae CBAC yn cynnig cymwysterau Ofqual i ysgolion a cholegau yn Lloegr.

## Rheoliadau ar gyfer Canolfannau CBAC

Mae CBAC yn aelod o'r Cyd-Gyngor Cymwysterau (JCQ), sefydliad aelodaeth sy'n cynnwys yr wyth darparwr mwyaf o gymwysterau yn y DU. Mae'r CGC yn rhoi un llais ar faterion gweinyddu arholiadau, gan ddarparu, lle y bo'n bosibl, trefniadau gweinyddol cyffredin ar gyfer arholiadau gan felly leihau biwrocratiaeth i ysgolion a cholegau.

Rhaid i ganolfannau sydd wedi'u cymeradwyo i gynnig cymwysterau CBAC/Eduqas lynu at y rheoliadau a bennir yn fersiwn diweddaraf dogfennaeth berthnasol y CGC yn cynnwys y *Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwy.* Gellir eithrio canolfannau a gofrestrwyd â CBAC i gynnig dim ond cymwysterau Llwybrau, Diploma Sylfaen Lefel 3 Celf a Dylunio, Sgiliau Hanfodol Cymru neu Ddiploma Estynedig rhag y gofynion sy'n ymwneud â storio diogel a derbynfa/swyddfa â pherson.

Rhaid i bob canolfan fodloni'r gofynion a nodir ym manylebau'r pynciau unigol, llawlyfrau'r cymwysterau, a dogfennau perthnasol eraill CBAC (yn cynnwys *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth Codio CBAC, Llawlyfr Asesu Mewnol CBAC: Canllaw i ganolfannau).*

Yn ychwanegol, rhaid i bob canolfan sydd wedi'i chymeradwyo i gynnig cymwysterau CBAC / Eduqas gadw at yr amodau a nodir yn y ddogfen *Amodau Cyffredinol i Ganolfannau CBAC* hon.

## Amodau Cyffredinol i ganolfannau CBAC

Rhaid i bob canolfan gymeradwy CBAC:

- Sicrhau eu bod yn cynnal a chadw cywirdeb y broses arholi ac asesu.
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod CBAC yn gallu cydymffurfio ag Amodau Cydnabyddiaeth ei rheoleiddwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- Cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth neu ddogfennau a wneir gan CBAC neu ei reoleiddwyr cyn gynted â phosibl.

## Cymeradwyaeth, Statws a Monitro Canolfannau

Rhaid cael cymeradwyaeth fel canolfan a, lle y bo'n berthnasol, cymeradwyaeth i gynnig cymwysterau gyda CBAC cyn dechrau cyflwyno cymwysterau CBAC / Eduqas.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i wrthod cais am gymeradwyaeth heb roi rheswm. Nid oes proses apelio.

Rhaid i ganolfannau gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau cymeradwyo a monitro canolfannau a chymwysterau CBAC, yn cynnwys caniatáu mynediad rhwydd at wybodaeth neu ddogfennau, gwaith ymgeiswyr, cofnodion y ganolfan, arholiadau a chyfleusterau'r ganolfan. Gall hyn gynnwys ymweliadau heb eu cyhoeddi.

Rhaid i ganolfannau gynorthwyo CBAC wrth gynnal unrhyw weithgareddau monitro rhesymol, a rhaid cynorthwyo CBAC neu ei reoleiddwyr mewn unrhyw ymchwiliadau a wneir at bwrpasau cyflawni eu swyddogaethau.

Rhaid i ganolfannau hysbysu CBAC ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau yn digwydd sy'n effeithio ar natur y ganolfan (e.e. newid perchnogaeth neu reolaeth) neu'n effeithio ar allu'r ganolfan i fodloni gofynion cymeradwyo canolfannau CBAC.

Rhaid i unrhyw ganolfan y mae ei chymeradwyaeth fel canolfan neu am gymwysterau wedi'i thynnu'n ôl neu sydd â sancsiynau wedi'u gosod gan gorff dyfarnu arall, roi gwybod i CBAC am hyn ar unwaith.

Os bydd canolfan yn tynnu’n ôl o’i rôl yn y broses o gyflwyno cymhwyster CBAC/Eduqas, bydd rhaid i'r ganolfan gymryd yr holl gamau rhesymol i warchod buddiannau’r dysgwyr.

Os yw'r ganolfan yn tynnu'n ôl o'i rôl yn y broses o gyflwyno cymhwyster CBAC/Eduqas, rhaid i'r ganolfan roi gwybod i CBAC ar unwaith fel bod modd cymryd camau rhesymol i warchod buddiannau’r dysgwyr.

## Staffio a Rheoli'r Ganolfan

Rhaid i ganolfannau gadw gweithlu o faint a chymhwysedd priodol i allu cyflwyno cymwysterau'n ôl gofynion CBAC.

Rhaid i ganolfannau gael digon o adnoddau rheoli ac adnoddau eraill fel y gallant gyflwyno cymwysterau'n effeithiol ac effeithlon yn ôl gofynion CBAC.

Rhaid i'r canlynol fod ar waith gan ganolfannau:

- Gweithdrefn recriwtio a dethol, ynghyd â disgrifiadau swyddi a manylebau person ysgrifenedig.
- Dogfennau a systemau i sicrhau bod yr holl staff wedi'u hyfforddi'n briodol, eu bod yn gymwys i wneud y gwaith ac wedi'u cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Rhaid i ganolfannau roi trefn trin cwynion neu broses apelio ar waith er budd dysgwyr.

## Cyflwyno ac Asesu'r Cymwysterau

Rhaid i ganolfannau cymeradwy CBAC/Eduqas allu bodloni'r amodau a nodir yn yr Amodau hyn, rheoliadau Cyffredinol y CGC ac unrhyw feini prawf cymhwyster penodol. Lle mae canolfan yn defnyddio trydydd parti i gyflwyno unrhyw ran o gymhwyster rhaid iddi sicrhau ei bod yn goruchwylio ac yn gyfrifol am ddarpariaeth y cymhwyster hwnnw'n unol â'r rheoliadau hyn a'n gofynion. Rhaid i ganolfannau gael cytundeb ysgrifenedig gyda'r trydydd parti a rhaid iddi sicrhau bod copi o'r cytundeb ysgrifenedig ar gael i'w archwilio os byddwn yn gofyn amdano.

Rhaid i ganolfannau fod â rolau a chyfrifoldebau ar waith ar gyfer pob tîm asesu.

Rhaid cyflwyno cymwysterau yn unol â Chyfraith Cydraddoldeb gan sicrhau cydymffurfiaeth â phob agwedd ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010†, yn enwedig Adran 20 (7).Os oes angen gwneud addasiad neu ddarparu cymorth, a'i bod yn rhesymol i'r ganolfan wneud yr addasiad neu ddarparu'r cymorth, **ni ddylai**'r ganolfan godi unrhyw ffi ychwanegol ar ymgeisydd anabl o ran yr addasiad neu'r cymorth hwnnw.

Rhaid cynnal yr holl arholiadau yng nghyfeiriad cofrestredig y ganolfan. Lle mae canolfannau yn bodloni gofynion y CGC ar gyfer defnyddio Safle Arall, rhaid dilyn proses y CGC a chyflwyno'r hysbysiad priodol.

Mae manylion ynghylch yr egwyddorion ar gyfer asesu a dyfarnu cymwysterau CBAC yn cynnwys y prosesau cymedroli y bydd CBAC yn eu cynnal i'w gweld yn ein dogfen 'Egwyddorion Cyffredinol sy'n Sail i Ddarparu Asesiadau CBAC'.

*†neu unrhyw ddeddfwriaeth mewn awdurdodaeth berthnasol heblaw am Gymru a Lloegr y mae ei phwrpas a'i heffaith yn gyfwerth*

Rhaid i ganolfannau sicrhau eu bod yn bodloni gofynion CBAC a'r CGC mewn perthynas â chynnal arholiadau, gan gynnwys sefyll asesiadau mewnol, eu marcio a'u cymedroli'n fewnol, a chynnal arholiadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan y ganolfan bolisi camymddwyn ysgrifenedig ar waith sy'n rhoi manylion ynghylch y ffordd yr hysbysir a chynghorir ymgeiswyr i osgoi camymddwyn, a'r ffordd y dylid uwchgyfeirio materion yn ymwneud ag achosion o amau camymddwyn o fewn y ganolfan ac adrodd am yr achosion hynny wrth CBAC.

## Systemau TG

Rhaid i ganolfannau gael mynediad i'r rhyngrwyd, a rhaid rhoi cyfeiriad e-bost y ganolfan sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd i CBAC.

Rhaid cadw manylion mewngofnodi ar gyfer systemau CBAC, yn cynnwys gwefan ddiogel CBAC, yn ddiogel.

Ni ddylid rhoi manylion mewngofnodi ar gyfer systemau CBAC, yn cynnwys gwefan ddiogel CBAC, i unrhyw unigolyn nad yw'n aelod o staff y ganolfan.

## Sancsiynau a thynnu cymeradwyaeth yn ôl

Bydd canolfannau sy'n methu â chydymffurfio â gofynion CBAC yn destun sancsiynau.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i dynnu cymeradwyaeth yn ôl o unrhyw ganolfan:

- Nad yw'n gwneud cofrestriadau am gyfnod o ddwy flynedd
- Nad yw'n bodloni'r gofynion cyfredol ar gyfer ei chymeradwyo fel canolfan a / neu i gyflwyno cymwysterau
- Nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau perthnasol y CGC a / neu ofynion CBAC
- Nad yw'n talu anfonebau CBAC o fewn yr amserlen ofynnol
- Sy'n peryglu cywirdeb a diogelwch y system arholi/asesu, neu'n peryglu rhoi enw drwg i system arholi/asesu CBAC.

Gall CBAC roi gwybod i Gyrff Dyfarnu eraill a phartïon eraill fel y bo angen o unrhyw achos o dynnu cymeradwyaeth yn ôl ac mae'n cadw'r hawl i wneud hynny.

Rhaid i ganolfannau gymryd pob cam rhesymol i warchod buddiannau dysgwyr mewn achos o'r fath.